Edward Jones, Maes-y-plwm, 1761–1836
Bardd, emynydd ac athro ysgol

Mae'n llond y nefoedd, llond y byd,
llond uffern hefyd yw;
llond tragwyddoldeb maith ei hun,
diderfyn ydyw Duw;
mae'n llond y gwagle yn ddi-goll,
mae oll yn oll, a'i allu'n un,
anfeidrol, annherfynol Fod
a'i hanfod ynddo'i hun.

Edward Jones

Ganwyd Edward Jones yn Nhan-y-Waen, Prion, Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch, 19 Mawrth 1761, yr unig fab o blith pump o blant yr amaethwyr John ac Ann Jones. Treuliodd flynyddoedd ei ieuenctid ym Mryn-y-gwynt Isaf, Prion, cyn symud i'r tyddyn y cysylltir ei enw ag ef, sef Maes-y-plwm, lle bu'n byw o 1801 i 1825. Safai Maes-y-plwm ryw ddwy filltir o Ddinbych ar y ffordd i Prion ar lethrau Dyffryn Clwyd. Yr oedd ei dad, a fu farw pan oedd yn ddeg oed, yn ddyn crefyddol, a gofalodd fod ei blant yn cael magwraeth Gristnogol. Er eu bod yn mynychu'r Eglwys Anglicanaidd leol, yr oedd gan John Jones gydymdeimlad â'r Methodistiaid.

Ychydig freintiau addysgol a gafodd Edward Jones a bu rhaid iddo ddibynnu gan fwyaf ar ei alluoedd cynhenid. Treuliodd beth amser yn ysgol Daniel Lloyd, gweinidog yr Annibynwyr yn Ninbych, a bu ef gyda chyfaill iddo mewn ysgol yng Nghaer pan oedd tua dwy ar hugain oed. Dechreuodd Edward Jones fynd i wrando'n achlysurol ar y Methodistiaid yn pregethu ac fe gafodd hynny gryn ddylanwad arno, ynghyd â darllen am fywyd John Bunyan.

Yn raddol daeth yn ymwybodol o'r ffaith mai pechadur ydoedd a bod angen gwaredigaeth arno. Ymunodd â seiat y Methodistiaid ar nos Fawrth y Pasg, 1787. Ym 1805 aeth i Gaer am

flwyddyn i arolygu argraffu cyfieithiad Cymraeg o Feibl y Parch. S. Clarke. Bu'n cadw ysgol Saesneg yng nghapel Prion a bu yn Lerpwl yn gweithio yn y swyddfa dollau, ond dychwelodd adref oherwydd gwaeledd.

Yn dilyn ei dröedigaeth codwyd ef yn flaenor yng nghapel Prion ac fe ddefnyddiodd ei ddoniau barddonol i gyfansoddi emynau a charolau. Dywedid fod ganddo ddiddordeb mewn barddoniaeth ers dyddiau bachgendod pan fyddai'n prydyddu yn saith oed i ychen ei dad. Maentumir iddo ddysgu ei grefft fel emynydd yng ngwasanaethau plygain yr eglwys oherwydd y gwaith cyntaf a gyhoeddwyd oedd ei garol, 'Clywch lais telynorion nef', yn yr ailargraffiad o *Grawnsypiau Grawnwin*. Hwn oedd y llyfr emynau poblogaidd cyntaf ymhlith y Methodistiaid yng ngogledd Cymru. Y gyfrol gyntaf o'i waith oedd *Hymnau ar Amryw Destynau ac Achosion* (1810). Ymddangosodd adargraffiad ohono gyda rhai newidiadau ym 1820 a 1829. Yn argraffiad 1820 cynhwysid hefyd farwnadau i Thomas Charles o'r Bala a'r Brenin Siôr III. Ym 1831 ymddangosodd llyfryn o'i eiddo yn dwyn y teitl *Gwialen i Gefn yr Ynfyd*, sef cerdd ddychan yn amddiffyn Calfiniaeth rhag ymosodiadau'r gweinidog Wesleaidd, y Parch. Edward Jones III, Llantysilio. Yn wir fe gafodd Edward Jones yr enw o fod yn emynydd Calfinaidd oherwydd natur athrawiaethol ei emynau mawr fel, 'Cyfamod hedd, cyfamod cadarn Duw'.

Priododd ddwywaith: y tro cyntaf ym 1784 â Jane Pierce, Llanrhaeadr – a fu farw'n annhymig – ac fe gawsant bedwar o blant; a'r ail dro â Margaret Roberts, y Green, ym 1795. Ganwyd iddynt dri ar ddeg o blant ond pump ohonynt yn unig a oroesodd eu tad. Treuliodd Edward Jones ei flynyddoedd olaf yng Nghilcain lle y bu farw ar 27 Rhagfyr 1826 a'i gladdu ym mynwent Llanrhaeadr.